

Therapi Galwedigaethol Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig

Cyfarwyddiadau ar gyfer ddefnyddio Coban

Disgrifiad Bras

Bwriedir i orchudd adlynol Coban gael ei ddefnyddio fel gorchudd elastig i gywasgu neu gynnal y bysedd.

- Lapiwch Coban o flaen y bys i waelod y bys mewn cyfeiriad lletraws.
- Newidiwch orchudd Coban ddwywaith y dydd.
- Tynnwch orchudd Coban os yw'n wlyb a'i newid.
- Gellir perfformio ymarferion therapi (os yw'n briodol) tra byddwch yn gwisgo gorchudd Coban.

Rhybuddion / Rhagofalon

- Ni ddylid rhoi gorchudd Coban mewn cysylltiad uniongyrchol â chlwyf agored.
- Mae'r cynnyrch hwn yn cynnwys latecs naturiol, a allai achosi adwaith alergaidd.
- Peidiwch â'i lapio'n rhy dyn.
- Fel gydag unrhyw orchudd elastig, dylid gwirio'r man perthnasol yn aml am arwyddion o lid, afliwio neu ddiffyg cylchredol.
- Gwiriwch gylchrediad yn aml drwy binsio blaen y bys yn ysgafn. Dylai'r lliw ddychwelyd o fewn ychydig eiliadau. Os na fydd y lliw yn dychwelyd, dylech ryddhau'r gorchudd Coban.
- Nid yw gorchudd Coban yn llithro nac yn dod yn rhydd ar ôl ei ddodi ymlaen. Dylid ei ddodi ymlaen gan ddefnyddio cywasgu priodol yn unig.

Sut i'w ddefnyddio

- Dad-ddirwynwch oddeutu 30 cm o orchudd Coban a gadael i'r gorchudd i fod.
- Heb ei ymestyn, dodwch un gorchudd llawn ymlaen a'i orgyffwrdd. Gwasgwch y man lle mae gorgyffwrdd yn ysgafn i gadw diwedd y gorchudd yn ei le.
- Pan fyddwch wedi gorffen doddi'r gorchudd ymlaen, torrwch y gorchudd Coban sydd ar ôl. Gwasgwch ddiwedd y gorchudd yn ysgafn i sicrhau ei fod yn ei le.
- Pan fydd y chwyddo yn y bys wedi lleihau, gallwch roi'r gorau i'w ddefnyddio, yn ôl cyfarwyddiadau'ch gweithiwr allweddol.

Os oes angen rhagor o arweiniad arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gorchudd Coban neu os yw'ch croen yn dangos unrhyw arwyddion o lid croen, brech, mannau agored neu ddiferol, tynnwch y gorchudd a chysylltu â'ch gweithiwr allweddol.

Ffôn: (01792) 703980
(Peiriant Ateb ar gael)
(Llun-Gwener 8:30-4:30)